CPS

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Y Cod ar Gyfer Erlynwyr y Goron

a Gyhoeddir an

y Cyfarwyddwyr Erlyniadau Cyhoeddus

Crynodeb o Ymatebion

Chwefror 2010

Cynnwys

PENNOD	TEITL Y BENNOD	TUDALEN
1	Cyflwyniad	2
2	Crynodeb o'r ymarfer ymgynghori	4
3	Ymatebion i Gwestiwn 1	6
4	Ymatebion i Gwestiwn 2	9
5	Ymatebion i Gwestiwn 3	11
6	Ymatebion i Gwestiwn 4	13
7	Ymatebion i Gwestiwn 5	16
8	Ymatebion i Gwestiwn 6	18
9	Ymatebion i Gwestiwn 7	20
10	Camau Nesaf	23
Atodiad A	Rhestr o ymatebwyr	24
Atodiad B	Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	27

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) dan adran 10 y Ddeddf Erlyn Troseddau 1985 ac mae'n darparu canllaw i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w gweithredu wrth wneud penderfyniad am erlyniadau.

1.2 Adolygwyd y Cod ddiwethaf yn 2004 ac mae'n cael ei ddiweddaru nawr i ganiatáu ar gyfer newidiadau yn y gyfraith ac ymarfer, yn ogystal â'r uno o Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau a ddigwyddodd yn Ionawr 2010.

1.3 Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn drafft newydd o'r Cod gan y DPP ar 18 Hydref 2009, gan redeg hyd at 11 Ionawr 2010. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd roi sylw ar y newidiadau arfaethedig ac i awgrymu unrhyw addasiadau pellach yr hoffent weld yn y fersiwn derfynol o'r Cod.

1.4 Defnyddiwyd holiadur i geisio barn ar eglurder yr adran ganlynol o'r Cod drafft yn benodol:

- rôl y CPS;
- cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn;
- y ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu i ffafrio erlyniad;
- y ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu i fod yn erbyn erlyniad;
- penderfyniadau tu allan i'r llys ac eraill a dewisiadau amgen i erlyn sydd ar gael.

1.5 Yn ogystal, bu'r CPS yn ceisio barn ar p'un a oedd angen ehangu unrhyw adrannau eraill o'r Cod.

1.6 Cyflwynwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar sawl ffurf, yn cynnwys cwblhau holiaduron a llythyron, ar ffurf electronig a chopi caled.

1.7 Ceir rhestr lawn o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**.

1.8 Mae'r CPS wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus ac, o ganlyniad, gwnaethpwyd nifer o newidiadau arwyddocaol i'r fersiwn drafft o'r Cod a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Adlewyrchir y newidiadau hyn yn y chweched (2010) rhifyn o'r Cod, a gyhoeddir ynghyd â'r crynodeb hwn o ymatebion.

1.9 Bydd y CPS yn cyhoeddi Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Ngorffennaf 2010. Ceir gwybodaeth am y broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn **Atodiad B**.

1.10 Hoffai'r CPS ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym yn cydnabod yr amser ac ymdrech oedd angen i baratoi'r ymatebion ac fe gredwn fod y Cod wedi gwella o ganlyniad.

1.11 Gellir cael copïau ychwanegol o'r crynodeb hwn a'r Cod trwy gysylltu â:

CPS Communication Division
Rose Court
Southwark Bridge
Llundain SE1 9HF

1.12 Gellir hefyd gael copïau trwy anfon neges e-bost at: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

1.13 Mae'r copi hefyd ar gael ar wefan y CPS yn: www.cps.gov.uk

2. Crynodeb o'r ymarfer ymgynghori

2.1 Yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gwahoddwyd ymatebwyr i ateb saith cwestiwn. Er bod y cyfnod ymgynghori wedi cau ar 11 Ionawr 2010, derbyniwyd nifer o ymatebion wedi'r dyddiad hwn. Mae pob ymateb a dderbyniwyd cyn 21 Ionawr 2010 wedi eu cynnwys yn y crynodeb.

2.2 Derbyniodd y CPS gyfanswm o 85 ymateb. Didolwyd yr ymatebwyr i'r categorïau canlynol a gyflwynir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Tabl o gategorïau ymatebwyr

YMATEBWYR		
Categori Ymatebwyr	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Heddlu/Asiantau Gorfodi'r Gyfraith	15	18%
Awdurdodau Cyhoeddus ac Adrannau Llywodraethol Eraill	12	14%
CPS (ymatebion mewnol y CPS)	9	11%
Y Farnwriaeth/Ynadaeth	8	9%
Academyddion neu Sefydliadau Academaidd	8	9%
Awdurdodau Erlyn Tramor	7	8%
Panelau Cynnwys y Gymuned a Phanelau Craffu Troseddau Casineb y CPS	6	7%
Sefydliadau Trydydd Sector	6	7%
Bargyfreithwyr/Cyfreithwyr/Gweithredwyr Cyfreithiol	5	6%
Y Cyhoedd	4	5%
Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol	3	4%
Y Wasg	2	2%
CYFANSWM	**85**	**100%**

2.3 Ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori. Dengys Tabl 2 isod y cyfanswm o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn a'r canran sy'n cynrychioli'r cyfanswm o ymatebwyr.

Tabl 2: Cyfanswm ymatebion

YMATEBION I BOB CWESTIWN FEL CANRAN O'R HOLL YMATEBWYR		
Cwestiwn	**Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd**	**Canran o'r cyfanswm o ymatebwyr**
1	67	79%
2	66	78%
3	68	80%
4	66	78%
5	64	75%
6	66	78%
7	75	88%

2.4 Mae Tîm Ymgynghori Cod y CPS wedi ystyried pob ymateb ac mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion hynny yn dilyn.

3. Cwestiwn 1: A esbonnir rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ddigon clir yn adrannau 1, 2 a 3?

3.1 Cafwyd 67 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn bositif ar y cyfan: cytunodd 38 fod rôl y CPS wedi ei esbonio'n glir.

3.2 Nododd nifer o ymatebwyr fod angen i'r Cod roi diffiniad cliriach o rôl yr erlynydd ac esbonio'r gwahaniaeth yn swyddogaethau'r CPS a'r heddlu. Roedd un ymatebydd yn credu y dylai'r Cod nodi'n benodol mai rôl yr heddlu yw rheoli a goruchwylio ymchwiliadau, nid y CPS. Nododd ymatebydd arall fod y Cod wedi methu nodi'r amrywiaeth o archwilwyr sy'n anfon achosion at y CPS yn ogystal â'r mathau o erlyniadau mae'r CPS yn eu cyflawni.

3.3 Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Cod bwysleisio fod y penderfyniad i erlyn yn gam difrifol a'i bod yn hanfodol sicrhau proses gwneud penderfyniadau teg a gwrthrychol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd.

3.4 Cwestiynodd ymatebydd arall pam fod yr erlynydd angen cael yr holl wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus.

3.5 Awgrymodd nifer o ymatebwyr newidiadau arddulliadol i wella eglurder yr iaith a'r ddogfen ei hun. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- cychwyn pob adran ar dudalen newydd;
- sicrhau defnydd cyson o'r geiriau: "dylai" a "rhaid";
- defnyddio'r termau "sawl a ddrwgdybir", "diffynnydd" a "troseddwr" fel fo'n briodol trwy gydol y ddogfen; ac
- ailosod y gair "cyhuddo" gydag "erlyniad", i helpu swyddogion yr heddlu i sylweddoli fod y Cod hefyd yn berthnasol i achosion gwysion.

3.6 Awgrymodd dau ymatebydd fod y Cod mor gymhleth erbyn hyn fel bod angen creu ail fersiwn symlach ar gyfer y cyhoedd.

3.7 Dywedodd un ymatebydd y dylai'r Cod gyfeirio at y gofyniad i erlynwyr gydymffurfio â'r datganiadau polisi a gyhoeddir gan y DPP.

3.8 Roedd dau ymatebydd yn credu y dylai'r Cod ddelio â'r cwestiwn o gyfranoledd a pherthnasedd parthed tystiolaeth a geisir gan ymchwilwyr ar ran erlynwyr. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai fod gofyniad i erlynwyr ystyried oblygiadau cost wrth ystyried yr angen am ragor o wybodaeth i'w helpu i ddod i benderfyniad am erlyniad. Crybwyllwyd y mater hwn o resymoldeb ceisiadau erlynwyr am dystiolaeth neu wybodaeth gan yr ymatebwyr mewn ymateb i Gwestiwn 2.

3.9 Gwnaeth un ymatebydd nifer o awgrymiadau parthed addasu'r Cod i gyfeirio'n benodol at y mesurau arbennig sydd ar gael yn y llysoedd er mwyn helpu pobl gydag anableddau.

3.10 Ystyriodd un arall y byddai geirfa o dermau cyfreithiol yn ddefnyddiol.

3.11 Holodd un ymatebydd sut ddylai erlynwyr ddelio ag achosion ble nad oes rhagolwg realistig o euogfarn ond mae rhagolwg realistig o sicrhau gorchymyn ategol, megis gorchymyn ataliol, wedi rhyddfarniad.

3.12 Teimlai nifer o ymatebwyr fod y gofyniad ym mharagraff 2.3 i erlynwyr hyrwyddo cydraddoldeb hil, anabledd neu rywedd yn ddryslyd ac y gallai ymddangos i'r darllenwr cyffredin i fod yn anghydnaws â'r ddyletswydd i fod yn deg a gwrthrychol a geir ym mharagraff 2.2. Teimlai ymatebydd y dylid rhestru'r ffactorau a gyflwynwyd ym mharagraff 2.2 (ac a ailadroddwyd ym mharagraff 4.16j) yn nhrefn yr wyddor er mwyn osgoi unrhyw awgrym o flaenoriaethu.

3.13 Nododd un ymatebydd fod angen aralleirio paragraff 3.4 yn fwy cywir i gyflwyno'r berthynas rhwng erlyniadau annheg a gorthrymol a'r athrawiaeth gyfreithiol o gamddefnydd o broses.

3.14 Teimlai un ymatebydd fod angen ailddrafftio adrannau 1, 2 a 3 i egluro statws cyfreithiol y Cod a'i bwrpas.

Ymateb y CPS

3.15 O ganlyniad i'r ymatebion ymgynghori, gwnaethpwyd nifer o newidiadau i adrannau 1, 2 a 3.

3.16 Mabwysiadwyd nifer o'r newidiadau arddulliadol a awgrymwyd gan yr ymatebwyr.

3.17 Ailddrafftiwyd y **Cyflwyniad** i:

- sefydlu statws cyfreithiol y Cod a'i bwrpas;
- roi diffiniad cliriach o rôl yr erlynydd;
- ddisgrifio'r detholiad o ymchwilwyr sy'n anfon achosion at y CPS; a
- phwysleisio annibyniaeth erlynwyr oddi wrth ymchwilwyr.

3.18 Ailddrafftiwyd yr adran **Egwyddorion Cyffredinol** i:

- bwysleisio bod y penderfyniad i erlyn yn gam difrifol;
- esbonio bod erlyn yn deg ac effeithiol yn hollbwysig er mwyn cynnal cyfraith a threfn;
- ddatgan yn bendant fod rhaid i erlynwyr gydymffurfio â'r polisïau a gyhoeddir ar ran y DPP;
- roi adlewyrchiad cywir o'n hoblygiadau statudol parthed cydraddoldeb ac yna'n hoblygiadau anstatudol; ni chredwn fod y drefn a adolygwyd rhyw fymryn yn awgrymu unrhyw flaenoriaethu; a
- diddymu'r frawddeg olaf o baragraff 2.3.

3.19 Ailddrafftiwyd yr adran **Penderfynu P'un ai i Erlyn** i:

- esbonio'r broses adolygu'n gliriach;
- esbonio'n well rôl erlynwyr o ran darparu canllaw a chyngor yn ystod ymchwiliadau; a
- sefydlu'r berthynas rhwng erlyniadau annheg a gorthrymol a'r athrawiaeth gyfreithiol o gamddefnydd o broses yn fwy cywir.

3.20 Fodd bynnag, wedi ystyried yn ofalus, nid ydym yn derbyn fod y Cod yn rhy gymhleth nac y byddai'n elwa o ychwanegu rhestr o dermau. Rydym wedi ceisio sicrhau fod y Cod mor ddealladwy â phosibl, o fewn y cyd-destun fod angen dogfen weithredol sy'n berthnasol i bob erlynydd. Credwn fod y Cod yn cyflawni'r cydbwysedd hwn.

3.21 Yn rhan o'n penderfyniad i sicrhau y gall cymaint o bobl â phosibl ddeall rôl, pwrpas a gwaith y CPS, rydym yn bwriadu cyhoeddi taflen "Hawdd i'w Darllen" am y Cod maes o law.

3.22 Rydym hefyd wedi ystyried yr awgrym y dylai'r cod gyfeirio'n fwy penodol at anghenion dioddefwyr a thystion gydag anableddau. Credwn y deliwyd â'r materion hyn eisoes ym Mholisi'r CPS ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Anabledd a pholisïau CPS eraill, y dylid eu darllen ar y cyd â'r Cod. Rydym wedi mewnosod datganiad newydd yn y Cod ar yr angen i bob erlynydd gydymffurfio â pholisïau'r gwasanaeth erlyn y cyhoeddir hwy ar ran y DPP (paragraff 2.6 y Cod diwygiedig).

3.23 Nid ydym yn derbyn yr awgrym y dylid cychwyn erlyniad os nad yw'r holl wybodaeth hanfodol ar gael, gan ohirio os oes angen er mwyn casglu rhagor o wybodaeth. Ac eithrio dan yr amgylchiadau sy'n ysgogi gweithredu'r Prawf Trothwy (adran 5 y Cod diwygiedig), credwn fod rhaid i erlynwyr sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am yr achos – yn cynnwys p'un a oes digon o dystiolaeth ar y cychwyn i ddechrau'r achos.

3.24 Credwn hefyd na fyddai trefnu erlyniad ble na fodlonwyd y Prawf Cod Llawn gyda'r bwriad o sicrhau gorchymyn atal ar ryddfarnu yn defnyddio'r ddeddfwriaeth berthnasol yn y modd y bwriadodd y Senedd iddi gael ei defnyddio. Felly nid ydym wedi cyfeirio at hyn mewn unrhyw fodd yn y Cod diwygiedig.

3.25 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adrannau hyn o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr ynghylch y geiriad gwreiddiol.

3.26 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

4. Cwestiwn 2: A yw cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn wedi ei esbonio'n ddigon clir?

4.1 Cafwyd 66 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 33 ymateb yn cytuno fod cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn wedi ei egluro'n glir.

4.2 Credai un ymatebydd y dylai'r erlynydd gysylltu â chyfreithiwr y diffynnydd yn gynnar er mwyn sicrhau gwybodaeth ar yr amddiffyniad a fydd yn cael ei gyflwyno yn y llys.

4.3 Sylwodd dau ymatebydd fod diffyg eglurder, trefn synhwyrol a strwythur ym mharagraff 4.4.

4.4 Credai ymatebydd arall y dylai'r adran bwysleisio na ddylai'r cam tystiolaethol gael ei wanhau oherwydd bod yr achos yn un difrifol. Gwnaeth yr un ymatebydd nifer o awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gellid gwneud y geiriad ym mharagraff 4.4 yn fwy clir a chywir.

4.5 Roedd nifer o ymatebwyr yn meddwl y dylid addasu paragraff 4.4 i adlewyrchu y dylai ceisiadau am ragor o dystiolaeth fod yn rhesymol, gan ystyried oblygiadau ariannol ac adnoddau.

4.6 Awgrymodd un ymatebydd fod angen ehangu'r adran i gynnwys y mathau o dystiolaeth ddylai'r erlynydd ystyried, megis tystiolaeth ail-law a thystiolaeth o gymeriad drwg.

4.7 Credai un ymatebydd y dylai erlynydd, wrth asesu hygrededd tyst, fod yn ofalus i beidio trawsfeddiannu swyddogaeth y llys.

4.8 Dywedodd nifer o'r ymatebwyr nad oedd paragraff 4.4 yn glir, a bod angen diffinio'r term "achosion priodol".

4.9 Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith fod paragraff 5.5 o rifyn 2004 y Cod wedi datgan: *"Ni ddylai Erlynwyr y Goron anwybyddu tystiolaeth oherwydd nad ydynt yn sicr a ellir ei defnyddio neu a yw'n ddibynadwy. Ond fe ddylent edrych yn ofalus ar y dystiolaeth wrth benderfynu a oes gobaith realistig o euogfarn."* Roedd yr ymatebydd yn credu fod y datganiad hwn yn werthfawr ac y dylid ei gadw.

Ymateb y CPS

4.10 O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r adran hon wedi ei hailstrwythuro a'i hailddrafftio'n sylweddol. Yn benodol:

- mae paragraff 4.4 (paragraff 4.7 yn y Cod diwygiedig) wedi ei ehangu i gynnwys mathau newydd o dystiolaeth y dylai'r erlynydd ystyried, megis tystiolaeth ail-law a thystiolaeth o gymeriad drwg;

- mabwysiadwyd dynesiad mwy rhesymegol tuag at y cwestiynau ym mharagraff 4.4 paragraff 4.7 yn y Cod diwygiedig) ac maent wedi eu rhannu yn ôl i'r ddau gategori a ddefnyddiwyd yn rhifyn 2004 y Cod, sef: *A ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys?* ac *A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?*;
- mabwysiadwyd yr awgrymiadau ar sut y gellid gwneud geiriad y cwestiynau ym mharagraff 4.4 yn fwy clir a chywir. Yn benodol, cafwyd dychweliad at yr iaith yn rhifyn 2004 y Cod;
- mae'r adran nawr yn cynnwys y gofyniad o resymoldeb parthed ceisiadau'r erlyniad am ragor o dystiolaeth;
- rydym wedi cadarnhau y gellir ystyried tystiolaeth a gyflwynir ar ran sawl a ddrwgdybir trwy'r heddlu i helpu hysbysu penderfyniad erlyn (paragraff 3.3 y Cod diwygiedig);
- mae'r adran ar gyfweliadau tystion cyn treial wedi ei ailddrafftio i'w gwneud yn glir y dylai erlynwyr ystyried cynnal cyfweliad o'r fath: *"ble byddai'n ddefnyddiol i asesu dibynadwyedd tystiolaeth tyst neu i gael gwell dealltwriaeth o dystiolaeth gymhleth"* (Paragraff 4.8 y Cod diwygiedig). Credwn y bydd hyn yn helpu egluro beth mae'r ymadrodd "achosion priodol" yn golygu ar gyfer defnydd o gyfweliadau cyn treialon gyda thystion, er y bydd angen ystyried penderfyniadau unigol ar sail fesul achos; a
- mae'r geiriad ym mharagraff 5.5 rhifyn 2004 o'r Cod wedi ei adfer yn y fersiwn newydd o'r Cod (paragraff 4.9 o'r Cod diwygiedig).

4.11 Rydym hefyd wedi edrych ar yr awgrym na ddylai'r erlynydd drawsfeddiannu swyddogaeth y llys wrth ystyried hygrededd a dibynadwyedd tyst. Fodd bynnag, er mwyn i erlynydd gyflawni ei waith neu ei gwaith yn effeithiol, mae'n hanfodol ei fod ef neu ei bod hi yn asesu hygrededd a dibynadwyedd y dystiolaeth mae pob tyst yn debygol o gyflwyno. Mae hyn yn angenrheidiol cyn y gellir gwneud penderfyniad parthed cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn. Felly mae'n rhan ganolog o rôl yr erlynydd i wneud dyfarniadau o'r fath wrth benderfynu p'un ai i gychwyn erlyniad neu beidio.

4.12 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adran hon o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

4.13 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

5. Cwestiwn 3: A esbonnir y ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu i ffafrio erlyniad yn ddigon clir?

5.1 Cafwyd 68 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 33 o'r ymatebwyr yn cytuno yr esboniwyd y ffactorau lles y cyhoedd o blaid erlyn yn ddigon clir.

5.2 Croesawodd un ymatebydd y pwyslais ar "flaenoriaethau a nodwyd yn lleol"; holodd un arall sut fyddai'r erlynydd yn gwybod pa effaith a gafodd gweithredoedd y diffynnydd ar y gymuned.

5.3 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ehangu ar y categorïau o unigolyn sy'n "gwasanaethu'r cyhoedd" y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.12d.

5.4 Credai dau ymatebydd y dylid addasu paragraff 4.12g i gynnwys pobl agored i niwed yn ogystal â phlant.

5.5 Awgrymodd un ymatebydd y dylid addasu paragraff 4.12l i adlewyrchu y gallai'r gwahaniaeth nodedig mewn oed rhwng troseddwr a dioddefydd fod naill ai'n gorfforol neu feddyliol.

5.6 Awgrymodd un ymatebydd y dylai cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol fod yn ffactor lles y cyhoedd o blaid erlyn, fel y dylai'r ffaith y cyflawnwyd y drosedd, er nad yw'n ddifrifol ynddi ei hun, i hwyluso troseddu mwy difrifol.

Ymateb y CPS

5.7 Diddymwyd paragraff 4.12m a 4.12n ar y sail fod y rhesymeg sy'n eu cefnogi eisoes wedi ei gipio ym mharagraff 4.12o (paragraff 4.16r y Cod diwygiedig). Bydd canllaw ar wahân, yn arbennig parthed y dynesiad "Erlynydd Cymunedol" sy'n cael ei brofi mewn nifer o ardaloedd braenaru, yn cael ei gwblhau yn hwyrach yn 2010, i helpu darparu eglurhad manylach ar ddynodi blaenoriaethau lleol.

5.8 Mae'r categorïau o bobl sy'n gwasanaethu'r cyhoedd ym mharagraff 4.12d (paragraff 4.16d y Cod diwygiedig) wedi eu hehangu i gynnwys: *"er enghraifft, aelodau o'r gwasanaethau brys; swyddog yr heddlu neu'r carchardai; gweithiwr iechyd eu les cymdeithasol; neu ddarparwr trafnidiaeth gyhoeddus".*

5.9 Addaswyd paragraff 4.12l (paragraff 4.16l y Cod diwygiedig) i: *"os oedd gwahaniaeth amlwg yn oed y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefydd ac i'r sawl a ddrwgdybir gymryd mantais o hyn."* Ni fabwysiadwyd yr awgrym i gynnwys iaith yn cipio'r gwahaniaeth oed meddyliol rhwng y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefydd oherwydd bod y CPS yn ystyried fod paragraff 4.12l o'r ddogfen ymgynghori (paragraff 4.16m y Cod diwygiedig) yn cipio'r mater yn ddigonol.

5.10 Ychwanegwyd ffactor bellach sy'n tueddu i ffafrio erlyniad i'r cod newydd: *"cyflawnwyd y drosedd er mwyn hwyluso troseddu mwy difrifol"* (paragraff 4.16i y Cod diwygiedig).

5.11 Fe ystyriom p'un a ddylai cred resymol fod sawl a ddrwgdybir yn gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol fod yn ffactor o blaid erlyn, ond fe benderfynwyd na ddylai "cred" o'r fath fod yn sail i benderfyniad erlyn ac y byddai achosion a erlynir ar sail ffactor o'r fath yn debygol o achosi anawsterau yn y modd y gellid eu cyflwyno yn y llys.

5.12 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adran hon o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

5.13 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

6. Cwestiwn 4: A esbonnir y ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu i ffafrio peidio erlyn yn ddigon clir?

6.1 Cafwyd 66 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 28 o'r ymatebwyr yn cytuno yr esboniwyd y ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn yn ddigon clir.

6.2 Teimlai un ymatebydd y dylai fod er lles y cyhoedd i erlyn ar bob achlysur os bodlonwyd y cam tystiolaethol.

6.3 Nododd nifer o'r ymatebwyr y dylid diffinio'r term "cosb enwol" yn fwy clir ym mharagraff 4.13a.

6.4 Teimlai un ymatebydd nad oedd ystyr paragraff 4.13b yn glir. Teimlai un arall nad oedd y ffactorau a sefydlwyd yn y paragraff hwn yn briodol i erlynydd ystyried.

6.5 Awgrymodd un ymatebydd y dylid ychwanegu eithriad atodol i'r rhestr ym mharagraff 4.13h i gwmpasu sefyllfaoedd ble defnyddiwyd technegau ymchwilio newydd i edrych eto ar droseddau oedd heb eu datrys yn flaenorol ac y nodwyd sawl a ddrwgdybir o ganlyniad.

6.6 Fe ddenodd paragraff 4.13l feirniadaeth. Cwestiynodd nifer o ymatebwyr y gwahaniaeth rhwng "addo" i sawl a ddrwgdybir na fydd yn cael ei erlyn, a'i "hysbysu" na fydd achos yn cael ei gyflwyno yn ei erbyn.

6.7 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch paragraff 4.13n. Yn benodol, fe awgrymwyd y gellid camddehongli'r paragraff i olygu po fwyaf eithafol ac atgas yw barn y sawl a ddrwgdybir, y lleiaf tebygol yw hi yr erlynir ef neu hi.

6.8 Awgrymodd un ymatebydd y dylid addasu paragraff 4.13o i'w gwneud y glir na ddylai'r ffaith fod y diffynnydd yn hŷn, ynddo'i hun, fod yn ffactor yn erbyn erlyniad.

Ymateb y CPS

6.9 Fe ailddrafftiwyd paragraff 4.13b yn sylweddol yn y rhifyn newydd o'r Cod er mwyn darparu gwell eglurder a chywirdeb. Diddymwyd y pwynt bwled cyntaf ac mae'r trydydd wedi ei gyflwyno ym mharagraff 4.17c y Cod diwygiedig.

6.10 Ychwanegwyd eithriad pellach i'r rhestr ym mharagraff 4.13h (paragraff 4.17h y Cod diwygiedig) i gwmpasu sefyllfaoedd ble defnyddiwyd technegau ymchwilio newydd i edrych eto ar droseddau oedd heb eu datrys, ac o ganlyniad enwyd sawl a ddrwgdybir .

6.11 Diddymwyd paragraff 4.13l a pharagraff 4.13n.

6.12 Diddymwyd cyfeiriad at y ffaith fod y diffynnydd yn hŷn o baragraff 4.13o.

6.13 Nid ydym yn derbyn y sylwadau fod yn rhaid cael erlyniad os yw cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn wedi ei basio. Mae doethineb erlynyddol, fel y sefydlwyd yn natganiad clasurol Syr Hartley Shawcross (ac a ailadroddwyd eto ym mharagraff 4.10 y Cod diwygiedig), yn hanfodol mewn cymdeithas deg sy'n ceisio darparu cyfiawnder.

6.14 Teimlwn hefyd y byddai ceisio diffinio "cosb enwol" yn gyfyngiad gormodol gan y bydd yn amrywio o un achos i'r llall ac o ddiffynnydd i ddiffynnydd.

6.15 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adran hon o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

6.16 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

7. Cwestiwn 5: A yw cam lles y cyhoedd y Prawf Cod Llawn wedi ei esbonio'n ddigon clir?

7.1 Cafwyd 64 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 29 ymatebydd yn teimlo fod cam lles y cyhoedd y Prawf Cod Llawn wedi ei egluro'n glir.

7.2 Paragraff 4.10 a ddenodd y mwyafrif o'r sylwadau, gydag un ymatebydd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'n glir sut ac ym mha amgylchiadau y gallai'r cysyniad o "gyfranoledd" weithredu. Cwestiynodd ymatebwyr eraill p'un a oedd cyfranoledd, mewn gwirionedd, yn ddim mwy na ffactor lles y cyhoedd, neu p'un a oedd yn "drydydd cam" newydd y Prawf Cod Llawn. Nododd un ymatebydd nad oedd y Cod yn llwyddo i egluro beth oedd yr "amgylchiadau cyfyngedig iawn" ble dylid talu sylw i gyfranoledd.

7.3 Teimlai un ymatebydd y dylid rhoi eglurhad pellach o oblygiadau'r CPS parthed dioddefwyr. Er bod paragraff 4.15 yn datgan y dylid hysbysu dioddefwyr ynghylch penderfyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i achosion maent yn gysylltiedig â nhw, nid yw'r Cod yn llwyddo i egluro fod gan y CPS ddyletswydd statudol i hysbysu dioddefwyr o fewn cyfnod penodol o amser, fel y datganwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau.

7.4 Denodd paragraff 4.14 nifer o sylwadau. Credai un bod y cywair yn rhy negyddol, gan greu'r argraff nad oedd y CPS yn poeni am ddioddefwyr. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod y gair "anffodus" yn y frawddeg olaf yn ormodol. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod amgylchiadau eraill ble dylai'r CPS ystyried barn teuluoedd y dioddefwyr, megis os yw'r dioddefydd yn blentyn, neu gydag anabledd meddyliol.

7.5 Croesawyd yr hawl newydd, dan amgylchiadau arbennig, i ddewis gweithredu'r cam lles y cyhoedd cyn cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn. Fodd bynnag, teimlai nifer o'r ymatebwyr y dylai paragraffau 4.16 a 4.17 gynnwys enghreifftiau o pryd y gallai hyn fod yn briodol.

7.6 Mynegodd un ymatebydd bryder fod penderfyniadau'r CPS yn seiliedig ar ddim mwy na'r cyflwyniadau a wneir gan yr heddlu ac nad oes unrhyw gyfleuster i hysbysu'r CPS o geisiadau'r amddiffyniad i gael cyflawni gwaith ymchwilio.

7.7 Teimlai ymatebydd arall y dylid rhestru'r troseddau sydd angen caniatâd y DPP ynghyd ag esboniad mwy trylwyr.

7.8 Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol i wneud cyfeiriad penodol at y ffaith fod rhyddid mynegiant a chyfiawnder agored yn ffactorau sy'n dueddol i fod yn erbyn erlyn.

7.9 Awgrymodd dau ymatebydd y dylid rhoi canllaw pellach i sicrhau y rhoddir sylw digonol i oed y diffynnydd yn y rhestr o ffactorau lles y cyhoedd cyffredin yn erbyn erlyn.

7.10 Credai un ymatebydd yr ymddengys fod y gofyniad i'r erlynydd fod yn siŵr fod yna ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai o blaid (yn absenoldeb priodoldeb gwarediad arall) yn creu trothwy uchel a allai danseilio'r doethineb cyffredinol i erlyn. Teimlwyd y gallai hyn effeithio ar bobl ifanc ble er bod y drosedd y un ddifrifol, fe allai fod ffactorau cymhellol a lliniarol ar gyfer gwyriad llwyr oddi wrth sancsiynau troseddol.

Ymateb y CPS

7.11 Oherwydd y pryderon a fynegwyd, mae paragraff 4.10 wedi ei ddiddymu o'r Cod diwygiedig.

7.12 Mae paragraff 4.14 (paragraff 4.18 o'r Cod diwygiedig) wedi ei ailddrafftio. Mae nawr yn datgan: *"wrth benderfynu p'un a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegwyd gan y dioddefydd parthed effaith y drosedd arnynt."* Rydym hefyd wedi ehangu'r categorïau o achosion ble dylid ystyried barn teulu'r dioddefydd i gynnwys rhai ble mae'r dioddefydd yn blentyn, neu'n oedolyn gyda diffyg galluedd fel y diffiniwyd gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

7.13 Ychwanegwyd adran i'r Cod newydd sy'n egluro, wrth benderfynu p'un ai i erlyn: *"er bod yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflenwyd gan yr ymchwilydd yn gyntaf, gall y sawl a ddrwgdybir neu rai sy'n gweithredu ar ei ran neu ar ei rhan hefyd gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth i'r erlynydd trwy'r heddlu cyn cyhuddo, i helpu hysbysu penderfyniad yr erlynydd"* (paragraff 3.3 y Cod a gyhoeddwyd).

7.14 Ehangwyd yr adran ar Bobl Ifanc (adran 8 y Cod diwygiedig) er mwyn sefydlu rhai o'r nodau ac egwyddorion sy'n tanategu'r system cyfiawnder troseddol ac i'w gwneud yn glir pryd fydd lles y cyhoedd yn galw am erlyniad yn hytrach na phenderfyniad tu allan i'r llys. Mae'n creu adran ar wahân yn y Cod diwygiedig, yn dychwelyd at y dynesiad a fabwysiadwyd yn y pumed rhifyn.

7.15 Fe ystyriom yr awgrym y dylai'r Cod gynnwys mwy o wybodaeth ar ein dyletswyddau tuag at ddioddefwyr a thystion. Fodd bynnag, fe benderfynom fod hyn wedi cael sylw priodol ym mharagraff 4.15, ac y dylid cyfyngu manylion pellach i'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau a pholisïau perthnasol y CPS y mae'n rhaid i erlynwyr gydymffurfio â nhw. Mae'r testun perthnasol yn ymddangos ym mharagraffau 4.18-20 y Cod diwygiedig.

7.16 Ni chredwn ei bod yn briodol i restru'r holl droseddau ble byddai angen caniatâd y DPP neu sefydlu'r gweithdrefnau caniatâd perthnasol; byddai'n gwneud y ddogfen yn rhy hir a byddai angen diweddariadau wrth gyflwyno deddfau newydd sydd angen caniatâd y DPP (neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Incwm a Thollau) neu os mabwysiadir gweithdrefnau newydd.

7.17 Adolygwyd yr adrannau yn ymwneud ag achosion caniatâd a phryd y gellir gweithredu lles y cyhoedd heb i'r broses casglu tystiolaeth fod yn gyflawn a'u symud i lefydd mwy priodol yn y Cod (paragraffau 3.7 a 4.2-3 yn y drefn honno o'r Cod diwygiedig).

7.18 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adran hon o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

7.19 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

8. Cwestiwn 6: A yw'r adran ar warediadau tu allan i'r llys wedi ei gyflwyno mewn modd dealladwy, ac a yw'n esbonio'n glir pa warediadau a dewisiadau amgen i erlyn sydd ar gael?

8.1 Roedd 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 27 o'r ymatebwyr yn cytuno fod yr adran wedi ei chyflwyno mewn modd dealladwy ac yn esbonio'n glir pa warediadau a dewisiadau amgen i erlyn sydd ar gael.

8.2 Teimlai naw ymatebydd fod yr adran yn wan ac/neu'n gamarweiniol. Fodd bynnag, awgrymai'r ymateb cyffredinol i'r cwestiwn hwn fod angen mwy o fanylion ar rybuddion syml a rhybuddion amodol. Yn benodol:

- beth ydynt;
- dan ba amgylchiadau y gellir eu cynnig ac ar ba gam; a
- p'un a all yr heddlu eu cynnig, neu'r CPS neu'r ddau.

8.3 Nododd un ymatebydd y dylid egluro y bydd yr erlynydd yn ystyried barn y dioddefydd wrth benderfynu defnyddio rhybudd amodol fel modd o waredu achos.

8.4 Teimlai nifer o ymatebwyr y gallai'r adran hon fod yn fwy eglur o ran esbonio'r gwahaniaeth rhwng rhybudd syml a rhybudd amodol.

8.5 Teimlwyd yn gyffredinol y dylai'r derminoleg a ddefnyddir fod yn gyson, megis naill ai "gwarediad tu allan i'r llys" neu "dargyfeiriad". Teimlwyd fod defnyddio gwahanol dermau sydd mae'n debyg yn golygu'r un peth yn gamarweiniol a dryslyd.

8.6 Cwestiynodd rhai ymatebwyr gynnwys y cyfeiriad at Orchmynion Adfer Sifil a Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol ar y sail nad ydynt wir yn ddewisiadau amgen i erlyn. Ymhellach, teimlwyd y dylid esbonio'r termau hyn yn fanylach os oeddynt i'w cynnwys yn y Cod. Gofynnodd ymatebydd arall pam nad oedd unrhyw sôn am Hysbysiadau Cosb ar gyfer Anrhefn.

8.7 Awgrymodd un ymatebydd na ddylid gwneud penderfyniad i derfynu erlyniad nes bod sicrwydd y bydd neu fod gwarediad amgen priodol wedi digwydd, a theimlai un arall fod gan yr erlynydd rywfaint o gyfrifoldeb dros sicrhau yr ystyriwyd pob gorchymyn ategol o flaen llaw i wrandawiadau dedfrydu.

8.8 Datganodd ymatebydd arall fod yr adran hon wedi ei hysgrifennu ar gyfer cyfreithwyr a gan ei bod yn ddogfen gyhoeddus y dylid gofyn i'r Sefydliad Crystal Mark Plain English edrych arni.

8.9 Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o eglurder parthed y berthynas rhwng lles y cyhoedd a'r penderfyniad i ddelio ag achos trwy benderfyniad tu allan i'r llys.

Ymateb y CPS

8.10 Mae'r adran ar benderfyniadau tu allan i'r llys wedi ei ailddrafftio'n sylweddol a'i ehangu i egluro natur rhybuddion a rhybuddion amodol ac i esbonio'r oblygiadau i'r troseddwr. Mae'r adran hefyd wedi ei diweddaru o ganlyniad i ddatblygiadau yn y gyfraith ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. Rydym wedi penderfynu y dylai'r adran hon o'r Cod diwygiedig ganolbwyntio ar y gwarediadau tu allan i'r llys hynny y mae erlynwyr yn fwyaf cysylltiedig â nhw.

8.11 Mae'r adran yn ei gwneud yn glir fod y cynnig o rybudd neu rybudd amodol yn ddewis amgen i erlyn. Mae'r testun hefyd yn egluro beth ddylai ddigwydd os na dderbynnir rhybudd neu rybudd amodol neu os nad yw'r troseddwr yn cydymffurfio'n llawn ag amodau'r rhybudd amodol.

8.12 Mae rôl yr heddlu wrth gyhoeddi Hysbysiadau Cosb ar gyfer Anrhefn yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

8.13 Rydym yn derbyn nad yw'r cyfeiriadau hyn at Orchmynion Adfer Sifil a Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol yn helpu'r cyhoedd i ddeall ein rôl yn y defnydd o warediadau tu allan i'r llys ac fe ddiddymwyd y cyfeiriad atynt.

8.14 Yn ogystal, rydym wedi cysylltu priodoldeb gwarediadau tu allan i'r llys yn ôl i'r rhestrau o ffactorau lles y cyhoedd ac ym mharagraff 4.16b y Cod diwygiedig rydym wedi esbonio ei fod yn ffactor sy'n tueddu i gefnogi erlyniad os: "bydd euogfarn yn debygol o arwain at orchymyn llys sy'n fwy na'r hyn y gall erlynydd sicrhau trwy rybuddion amodol", tra'i fod yn ffactor sy'n tueddu i fod yn erbyn erlyn os: "gellir delio'n briodol â difrifoldeb ac oblygiadau'r troseddu gyda phenderfyniad tu allan i'r llys y mae'r sawl a ddrwgdybir yn derbyn ac y mae ef neu hi yn cydymffurfio â'r penderfyniad".

8.15 Adferwyd yr adran ar "Rôl yr erlynydd mewn dedfrydu". Mae'r paragraff newydd yn 11.4 yn egluro ei bod: "[y]n ddyletswydd ar yr erlynydd i wneud cais am iawndal a gorchmynion ategol, megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion atafaeliad, ym mhob achos priodol".

8.16 O ganlyniad i'r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae'r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol yr adran hon o'r Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

8.17 Mae'r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

9. Cwestiwn 7: A oes unrhyw adran arall o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron y credwch y dylid ei ehangu ac, os felly, beth ydych yn credu y dylid ei gynnwys?

9.1 Cafwyd 75 ymateb i'r cwestiwn hwn a nifer o awgrymiadau ar gyfer cynhwysion pellach yn y Cod.

9.2 Datganodd dau ymatebydd yr hoffent weld diffiniad cliriach o'r Prawf Trothwy. Yn benodol, roeddynt yn teimlo y dylid diffinio'r term "drwgdybiaeth resymol" ac y dylid dynodi beth a olygir gyda "rhesymol ymarferol". Teimlai un ymatebydd nad oedd y Prawf Trothwy bellach yn ddefnyddiol a bod perygl y byddai'n tanseilio ymroddiad y CPS i "gyhuddo cywir" sydd wedi ei ymgorffori mewn cyhuddo statudol.

9.3 Teimlai nifer o ymatebwyr y dylid gwneud y Cod yn fwy clir o ran ymroddiad y CPS i ddioddefwyr a thystion, yn arbennig y rhai fydd yn gorfod mynychu'r llys. Awgrymwyd hefyd y dylai barn y dioddefydd fod yn ystyriaeth gyntaf y CPS.

9.4 Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r adran ar "Bobl Ifanc" gynnwys cyfeiriad penodol at yr angen i ystyried amcanion cyffredin y system gyfiawnder ieuenctid.

9.5 Teimlwyd nad oedd yr adran ar achosion sydd angen Caniatâd y DPP yn glir.

9.6 Teimlai nifer o ymatebwyr y dylid ailgyflwyno'r adrannau ar: "Dderbyn Pledion Euog" a: "Rôl yr Erlynydd mewn Dedfrydu" oedd wedi eu diddymu o'r drafft hwn o'r Cod, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar gyfer erlynwyr, dioddefwyr a thystion.

9.7 Teimlai un ymatebydd y dylid cael adran ar wahân neu groesgyfeiriad i "Gyfarwyddiadau ar Gyfyngiadau Adrodd Anghyfiawn y Llys" y DPP.

9.8 Teimlai un ymatebydd y byddai adran ar gydweithio gydag erlynwyr o wledydd eraill yn ddefnyddiol ac y dylid cael adran ar gymorth cyfreithiol cilyddol ar faterion troseddol.

9.9 Teimlwyd nad esboniwyd yr adran ar "Lleoliad" yn glir. Cyfeiriwyd at rifyn 2004 y Cod ble cafwyd gwell esboniad o'r lleoliad dan "Dull y Treial". Awgrymwyd y dylid ailgyflwyno'r adran hon yn y rhifyn newydd o'r Cod. Awgrymwyd hefyd y dylid crybwyll y defnydd o dechnoleg wrth roi tystiolaeth, megis defnydd o gysylltiadau teledu.

9.10 Awgrymwyd y byddai adran ar foeseg broffesiynol yn atodiad defnyddiol i'r Cod. Teimlai un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol i gael adran sy'n cofnodi oblygiad i erlynwyr gydymffurfio â gorchmynion llys.

9.11 Awgrymwyd y byddai geirfa neu dudalen "deall y jargon" yn ddefnyddiol i'r cyhoedd. Argymhellwyd dolenni i ddogfennau perthnasol eraill, megis

canllawiau ar gyfer rôl erlynydd mewn achos llys, treialon, datguddio a dedfrydu, gan nifer o ymatebwyr hefyd.

9.12 Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys diagram yn dangos y broses mae'r heddlu a'r CPS yn dilyn er mwyn sefydlu p'un a yw'n briodol i erlyn yn y Cod.

9.13 Nododd un ymatebydd mai un o'r rhesymau pam ddylid ailystyried penderfyniad i beidio erlyn oedd os canfu cwest fod angen erlyn achos.

Ymateb y CPS

9.14 Credwn fod yr adran bresennol ar y "Prawf Trothwy" yn darparu digon o eglurder ar yr egwyddorion cyffredinol dan sylw; mae Canllaw'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo yn atodiad i'r Cod ac yn rhoi canllaw manwl pellach.

9.15 Rydym wedi gosod cyfeiriad at y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau i gydnabod y ddogfen bwysig hon y mae'n rhaid i erlynwyr ddilyn.

9.16 Mae'r adran ar "Bobl Ifanc" wedi ei ehangu ac yn esbonio bod yn rhaid i erlynwyr gadw prif amcan y system gyfiawnder ieuenctid dan sylw, sef i atal troseddu gan blant a phobl ifanc.

9.17 Gloywyd y paragraffau yn ymwneud ag achosion sydd angen caniatâd y DPP a'u cyfuno i greu un paragraff sengl yn yr adran ar "Y Penderfyniad P'un ai i Erlyn" (paragraff 3.7 y Cod diwygiedig).

9.18 O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r adrannau ar "Dderbyn Pledion Euog" a "Rôl yr Erlynydd mewn Dedfrydu" wedi eu hadfer (adrannau 10 ac 11 y Cod diwygiedig).

9.19 Nid ydym yn credu y dylid cyfeirio at ganllaw ar wahân ar gyfyngiadau adrodd y llys yn y Cod, sydd wedi ei anelu at ddarparu canllaw cyffredinol ar sut y gwneir penderfyniadau i erlyn. Mae canllaw o'r fath eisoes yn bodoli ac mae ar wahân i'r Cod.

9.20 Mae'r Cod yn cynnwys gwybodaeth ar sut mae'r gwasanaeth erlyn yn cydweithio gydag awdurdodau eraill i hwyluso ymholiadau ac erlyniadau yng Nghymru a Lloegr a thramor (paragraff 1.6 y Cod diwygiedig).

9.21 Mae'r adran ar "Lleoliad" wedi ei hailddrafftio i sicrhau gwell eglurder a chywirdeb ac mae bellach dan y pennawd "Dull y Treial".

9.22 Yn yr adran ar: "Ailystyried Penderfyniad i Erlyn", fe ychwanegwyd penderfyniad pellach i ailystyried, sef ble ceir: *"achos yn ymwneud â marwolaeth ble mae arolwg o ganlyniad i gasgliadau cwest yn pennu y dylid erlyn, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio erlyn"* (paragraff 12.2 y Cod diwygiedig).

9.23 Ni theimlwyd fod angen gosod adran ar foeseg broffesiynol yn y Cod gan y delir â hyn yn “Datganiad ar Egwyddorion Moesegol ar gyfer yr Erlynydd Cyhoeddus” y DPP a gyhoeddwyd yn 2009, ac y dylid ei ddarllen ar y cyd â’r Cod. Mae ar gael ar wefan y CPS.

9.24 Rydym hefyd yn ystyried y byddai’r cais am restr o dermau a siart llif i gynorthwyo’r cyhoedd yn bychanu’r Cod ei hun ac, yn benodol, ni chredwn y byddai mewnosod diagramau yn cyd-fynd â chwmpas a phwrpas y Cod.

9.25 O ganlyniad i’r sylwadau manylach a dderbyniwyd, mae’r CPS hefyd wedi addasu geiriad paragraffau penodol trwy gydol y Cod i osgoi unrhyw amwysedd neu bryderon a nododd yr ymatebwyr yn y geiriad gwreiddiol.

9.26 Mae’r holl awgrymiadau eraill wedi eu hystyried yn ofalus, ond heb eu derbyn.

10. Camau Nesaf

10.1 Mae'r CPS wedi ystyried yr holl ymatebion i'r Cod drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ofalus ac wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r testun.

10.2 Mae'r newidiadau hyn, sydd wedi eu crynhoi yn y ddogfen hon, nawr wedi eu cynnwys yn y chweched rhifyn o'r Cod a gyhoeddir ar y cyd â'r Grynodeb o Ymatebion hon.

10.3 Mae'r chweched rhifyn o'r Cod yn cymryd lle rhifyn 2004 y Cod.

ATODIAD A

RHESTR O YMATEBWYR

1. Y Cyhoedd

Clive Barker
Pat Barker
Neville Benson
Mr P Westrip

2. Heddlu ac Asiantau Gorfodi'r Gyfraith

Cymdeithas Prif Gwnstabliaid yr Heddlu (ACPO)
Cwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf
Cyfarwyddfa Gwrth Derfysgaeth a Throseddau Difrifol, Heddlu Dinas Llundain
Pencadlys Trosedd a Chyfiawnder yr Heddlu, Heddlu Surrey
Cwnstabliaeth Swydd Gaerhirfryn
Cangen Gwella Plismona Lleol, Heddlu Manceinion Fwyaf
Heddlu Gogledd Cymru (Dau ymateb ar wahân)
Heddlu Swydd Northampton
Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr
Uned Diogelu'r Cyhoedd, Pencadlys yr Heddlu, Hindlip, Caerwrangon
Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol
Cwnstabliaeth Suffolk
Heddlu Gorllewin Mercia
Heddlu Gorllewin Swydd Efrog

3. Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB)

LCJB Durham
LCJB Northumbria
LCJB Gorllewin Mercia

4. Awdurdodau Erlyn Tramor

Swyddfa Materion Allanol, Diogelwch a Datblygu, Quebec, Canada
Swyddfa'r Erlynydd Cyffredinol Gweriniaeth Slofacia
Llywodraeth Alberta, Gwasanaeth Erlyn, Canada
Swyddfa Erlynydd Cenedlaethol Gwlad Pwyl
Swyddfa Erlynydd Cyffredinol, yr Almaen
Swyddfa Erlynydd Cyffredinol, Portiwgal
Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus, Nova Scotia

5. CPS a grwpiau Staff

Ian Brownlee
Colin Chapman
David Evans
Lisa Hennessey
Pascale Jones
Joey Kwong
Chris Lewis
Sue Walker
Is-Bwyllgor Materion Proffesiynol FDA/CPS

6. Panelau Cynnwys y Gymuned a Phanelau Craffu Troseddau Casineb y CPS

CPS Cumbria – Panel Cynnwys y Gymuned
CPS Manceinion Fwyaf – Panel Troseddau Casineb Anabledd
CPS Swydd Gaerhirfryn – Panel Cynnwys y Gymuned
CPS Norfolk – Panel Craffu Troseddau Casineb, Norfolk
CPS Grŵp y De Orllewin – Panel Cynnwys y Gymuned
CPS Cymru – Panel Cynnwys y Gymuned Gogledd Cymru

7. Y Farnwriaeth/Ynadaeth

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Leveson (Uwch Farnwr Llywyddu ar gyfer Cymru a Lloegr ar adeg yr ymateb)
Cymdeithas yr Ynadon
Fforwm Cenedlaethol Cadeiryddion y Fainc
Nicholas Moss J.P.
Marvyn Slater J.P.
Andrew Turek J.P.
Llys Ynadon Bexley
Cymdeithas Clercod yr Ustusiaid

8. Academyddion neu Sefydliadau Academaidd

Coleg Holborn
Ysgol y Gyfraith Northumbria, Prifysgol Northumbria
Prifysgol Nottingham Trent
Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Southampton Solent
Ysgol y Gyfraith y Ddinas, Prifysgol Dinas Llundain
Coleg Prifysgol Llundain
Prifysgol Caergrawnt
Prifysgol Portsmouth

9. Awdurdodau Cyhoeddus ac Adrannau Llywodraethol Eraill

Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau
Adran Gwaith a Phensiynau, Adran Iechyd (Grŵp Cyfreithiol, Polisi Erlyniadau)
Gweithgor Iechyd a Diogelwch
Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth y Cynulliad
Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Gwrth Dwyll a Rheoli Diogelwch
Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol
Cymdeithas Swyddogion Carchardai
Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd
Gwasanaeth Safonau Masnach, Cyngor Sir Dyfnaint
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

10. Bargyfreithwyr/Cyfreithwyr/Gweithredwyr Cyfreithiol

Cymdeithas y Bar Troseddol
Pwyllgor Cyfraith Droseddol, Cymdeithas y Gyfraith
Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol
Sefydliad Gweithredwyr Cyfreithiol
Pwyllgor Cylchdaith De Ddwyrain y Bar

11. Y Wasg

Cymdeithas Cyfreithwyr y Wasg
The Newspaper Society

12. Sefydliadau Trydydd Sector

Gwarchod y Gymdogaeth, Swydd Derby
Cymorth i Ddioddefwyr
Rights of Women
Cymru Fwy Diogel
Wiltshire Independent Advisory Group
The Howard League for Penal Reform

ATODIAD B

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Ar hyn o bryd mae'r CPS yn monitro gweithrediad y Cod mewn sawl ffordd ar gyfer unrhyw effaith andwyol ar ddiffynyddion a dioddefwyr a thystion parthed ffactorau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn rhan o'n gweithdrefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ystyriwyd tystiolaeth yn deillio o'r gweithgareddau hyn yn ystod y cam cyn ymgynghori ar ddatblygiad y Cod diwygiedig.

Ni nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad na'r dadansoddiad o dystiolaeth bresennol y CPS unrhyw dystiolaeth o effaith andwyol o ganlyniad i'r adolygiadau i'r Cod.

Fodd bynnag, fe nodwyd meysydd i'w gwella yn systemau monitro'r CPS

Byddwn yn ymgynghori ar y cynllun gweithredu i wella monitro a'i gyhoeddi yn yr adroddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth erbyn Gorffennaf 2010.

Fe ddelir yn llawn ag unrhyw dystiolaeth o effaith andwyol yn y dyfodol.

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Am wybodaeth ar Wasanaeth Erlyn y Goron, ac i weld a lawrlwytho copi electronig o'r ddogfen hon, ewch i'n gwefan:

www.cps.gov.uk

Cyfarwyddiaeth Polisi'r CPS
© Hawlfraint y Goron 2010